CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**15 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Cyflwyno Lwfans Cysgu Mewn a Lwfans Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy**
Pwrpas yr adroddiad:	**Cyflwyno dau lwfans i strwythur cyflog y Cyngor ar gyfer staff y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol**
Er:	**Penderfyniad**
Aelod Cabinet a Phortffolio:	**Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad, a Phobl a Threfniadaeth**

Cyflwyniad

Mae'r Statws Sengl yn gytundeb ar y cyd a wnaed yn 2012 rhwng y Cyngor a'r undebau llafur cydnabyddedig ar gyfer staff a gyflogir o dan delerau ac amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, sef y 'Llyfr Gwyrdd'. Yn ogystal â'r cyflogau a'r graddfeydd, mae'r cyd-gytundeb yn nodi'r lwfansau sy'n daladwy i'r grŵp yma o staff. Mae'r papur hwn yn cynnig cyflwyno dau lwfans newydd i'w hychwanegu at y rhai sydd wedi'u cynnwys yng Nghytundeb Statws Sengl y Cyngor.

Ymgynghorwyd ynghylch y naill lwfans a'r llall gyda'r undebau llafur cydnabyddedig a gwnaethant gytuno arnynt.

Lwfans Cysgu Mewn
Rydym yn adolygu'r lwfansau ar gyfer staff yn ein lleoliadau preswyl yn sgil datblygu cyfleuster preswyl i blant fydd yn cael ei redeg gan y Cyngor,.

Ar hyn o bryd mae'r holl staff sy'n gweithio yn ein cartrefi gofal preswyl yn gwneud hynny drwy weithio 'nosweithiau ar ddi-hun', pan mae'n ofynnol iddynt gyflawni eu horiau cytundebol a'r dyletswyddau a nodir yn eu contract cyflogaeth. O dan Gytundeb Statws Sengl y Cyngor mae staff nos yn cael cyfradd o awr a chwarter yn ystod eu shifft. Ni chaniateir iddynt gysgu.

Oherwydd nifer y plant fydd yn y cyfleuster preswyl newydd, dim ond hyn a hyn o ddyletswyddau fyddai angen eu cyflawni gydol y nos a'r cynnig felly yw cyflwyno lwfans newydd ar gyfer 'cysgu mewn'.

Ym mis Mawrth 2021 cadarnhaodd y Goruchaf Lys *(Tomlinson-Blake v Royal Mencap, 2017)* fod hawl gan weithwyr cysgu-mewn i gael cyfradd tâl cytundebol fesul awr dim ond os ydynt ar ddi-hun yn ystod y shifft ar gyfer gwaith, nid pan fydd hawl ganddynt gysgu. Ar hyn o bryd mae'r oriau a dreulir yn ystod eu shifft, boed

ar ddi-hun neu'n cysgu, yn cael eu trin fel ‘amser gweithio’ o dan Reoliadau Amser Gwaith 1998.

Bydd cyflwyno ‘Lwfans Cysgu Mewn’ yn golygu fod y testun canlynol yn cael ei gynnwys fel ychwanegiad i'r Cytundeb Statws Sengl. Mae'r testun yn seiliedig ar y cofnod perthnasol yng Nghytundeb Cenedlaethol yr NJC (y Llyfr Gwyrdd):
Bydd gweithwyr sy'n gorfod cysgu mewn ar y safle yn derbyn lwfans i dalu am y gofyniad i gysgu mewn a hyd at 30 munud am alw allan bob nos. Ar ôl hynny bydd y drefn oriau ychwanegol neu goramser yn berthnasol.

Ar hyn o bryd, yn ôl y gyfradd ym mis Ebrill 2022, mae’r lwfans yma yn £39.24.

Hefyd, gall y lwfans gael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor i oedolion, a hynny yn ystod tywydd garw – byddai'n cael ei gynnig i staff sy'n gwirfoddoli i gysgu yn y cartref er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth.

Lwfans Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy
Mae Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor i gyflawni dyletswyddau penodol, fel y nodir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Yng nghyflogaeth y Cyngor bydd y rhain fel arfer yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig ond gall y rôl gael ei chyflawni gan therapyddion galwedigaethol, nyrsys seiciatrig neu seicolegwyr clinigol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am gydlynu asesiad unigolyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a’i dderbyn i'r ysbyty os yw’n cael ei anfon yno i’w gadw o dan y ddeddf. Gweithiwr proffesiynol annibynnol yw’r AMHP ac ni all rheolwr neu feddyg ei gyfarwyddo i anfon rhywun i’r ysbyty. Bydd AMHP yn ystyried argymhellion gan ddau feddyg ac yn ymgynghori â pherthynas agosaf yr unigolyn cyn cynnal asesiad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cyfrifoldeb AMHP yw gwneud y penderfyniad terfynol a sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n gywir.

Wrth wneud penderfyniadau o'r fath mae angen i'r AMHP gydbwyso risg yn erbyn yr opsiwn lleiaf caethiwus, a hynny yn aml mewn sefyllfaoedd heriol. Gall y penderfyniad, os yw'n anghywir, fod â goblygiadau mawr i'r unigolyn, y cyhoedd yn gyffredinol, a'r Cyngor.

Cyn dechrau ar gymhwyster AMHP bydd angen i weithwyr cymdeithasol feddu ar o leiaf dwy flynedd o brofiad yn dilyn eu cymhwyster gwaith cymdeithasol. Er mwyn cyflawni'r cymhwyster AMHP mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol ymgymryd â chwrs ar lefel ôl-raddedig a fydd yn para rhwng 6 a 12 mis.

Mae'n ofyniad statudol fod gan y Cyngor AMHP ar ddyletswydd dros bob cyfnod o 24 awr. Yn ystod y dydd cyflenwir hyn gan staff cymwys yn y Tîm Lles Meddyliol, ac yna fe’i cyflenwir gan y Tîm Dyletswydd Argyfwng (EDT) y tu allan i oriau swyddfa, gyda'r nos a’r penwythnos ac ar wyliau banc.

Tâl Ychwanegol
I gydnabod y cyfrifoldeb, y rôl a’r sylfaen sgiliau sy’n angenrheidiol ar gyfer dyletswyddau AMHP, cynigir lwfans ychwanegol. Bydd lwfans o’r fath hefyd yn

cyfrannu at recriwtio a chadw AMHP gan fod prinder mawr ledled y wlad o weithwyr proffesiynol yn y maes hwn.

Mae lwfans AMHP yn elfen sefydlog o'r ddyletswydd AMHP mewn nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r taliad yn amrywio o £75 y sesiwn i £228.25 y mis am ymgymryd â'r rôl.

Ar hyn o bryd mae 6 gweithiwr AMHP cymwys yn y Cyngor; 4 mewn gwasanaethau dydd a 2 yn y Tîm Dyletswydd Argyfwng. 9 fyddai'r nifer lawn o AMHP, pe bai 5 aelod o staff ychwanegol a chymwys yn cael eu recriwtio a'u datblygu gan fod y garfan bresennol o 6 yn cynnwys y Rheolwr Corfforaethol Lles Meddyliol a'r Rheolwr Tîm a fyddai'n stopio bod yn AMHP.

Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r Lwfans AMHP hwn yn ychwanegiad parhaol i'r lwfansau presennol sy'n cael eu talu i Staff y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd).

Y Cynnig

Cynigir bod Lwfans AMHP yn cael ei gyflwyno ar gyfradd o £175 y mis (£2,100 y flwyddyn) ar gyfer y Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy a awdurdodir. Mae'n ofynnol fod y staff sy'n derbyn y lwfans hwn yn ymrwymo i fodloni pwyntiau 1, 2 a 3 o'r meini prawf canlynol ac yn ymrwymo i un o blith pwyntiau 4, 5 a 6:

TALU LWFANS GWEITHIWR PROFFESIYNOL IECHYD MEDDWL CYMERADWY (AMHP)

Mae'r canlynol yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i Weithwyr Cymdeithasol eu bodloni i fod yn gymwys i dderbyn lwfans am ddyletswyddau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, gan ddod rym oddi ar 1 Ebrill 2022:

1. *Bod yn Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) sydd â'r cymwysterau llawn.*
2. *Cael ei awdurdodi gan Gyngor Sir Ceredigion i gyflawni gwaith o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.*
3. *Bod ar gael ar gyfer asesiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl pan fydd ar ddyletswydd, ac ail-flaenoriaethu gwaith yn ôl yr angen.*
4. *Cynnal o leiaf tair sesiwn y mis/ 36 sesiwn y flwyddyn ar rota ddydd AMHP, a bod yn barod i ymgymryd â'r dyletswyddau. Gall niferoedd y sesiynau amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ôl nifer y gweithwyr AMHP sydd ar gael i'r Awdurdod. Pro rata ar gyfer staff rhan amser.*
5. *I staff sydd wrth gefn, cyflawni o leiaf dwy sesiwn y mis/ 24 sesiwn y flwyddyn ar y rota AMHP y tu allan i oriau. Pro rata ar gyfer staff rhan amser.*
6. *I'r Rheolwr Corfforaethol/ Rheolwr Tîm sy'n cael ei awdurdodi ond nad yw'n ymgymryd fel rheol â dyletswyddau'r Tîm Dyletswydd Argyfwng neu ddyletswyddau dydd AMHP, ei fod ar gael yn ôl y galw i gyflenwi os oes salwch, gwyliau blynyddol, absenoldebau eraill. Hefyd ymateb i*

bwysau yn y gwasanaeth drwy gyflenwi yn ychwanegol pan fo angen, a rhoi cyngor a chymorth yn ôl y gofyn.

Gwneir y taliadau hyn drwy ôl-daliad drwy'r gyflogres a bydd yn dod i ben ar unwaith os nad yw'r sawl sy'n derbyn y taliad hwn yn cydymffurfio mwyach â'r meini prawf gofynnol.

Mae'r ymrwymiad i wneud o leiaf tair sesiwn ddydd ar y rota AMHP neu ddwy sesiwn y tu allan i oriau ar y rota AMHP bob mis yn parhau, beth bynnag yw eu gwyliau blynyddol, ond nid felly os bydd rhaid cymryd absenoldeb salwch heb ei gynllunio.

Os bydd absenoldeb salwch yr AMHP yn para'n hirach na chyfnod parhaus o dri mis, bydd ei lwfans AMHP yn cael ei atal.

O beidio ag ymrwymo i wneud o leiaf tair sesiwn ddydd ar y rota AMHP neu ddwy sesiwn y tu allan i oriau ar y rota AMHP bob mis calendr, neu sesiynau cyfatebol dros gyfnod o dri mis yn olynol, bydd hyn yn gallu arwain at stopio'r lwfans AMHP.

Mae'n ofynnol i staff gwblhau ffurflenni oriau yn fisol gan gadarnhau a weithiwyd y sesiynau a oedd ar y rota. Ni fydd sesiynau na weithiwyd yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo cydymffurfiaeth ar gyfer y taliad.

Bydd y taliad yn pro rata yn ôl faint o sesiynau y mae unigolyn yn cydymffurfio â nhw, ar sail y meini prawf uchod.

Bydd y taliad yn pro rata ar gyfer staff rhan amser.

Bydd y lwfans hwn yn cael ei dalu yn ychwanegol i unrhyw daliadau cyflog ychwanegol eraill.

Y rheolwr llinell sy'n gyfrifol am roi gwybod i Pobl a Threfniadaeth pan na fydd gweithiwr yn cwrdd mwyach â'r meini prawf perthnasol ar gyfer y taliad.

Pennir taliad o £175 y mis i unigolyn sy'n cydymffurfio'n foddhaol â'r meini prawf uchod. Bydd y taliad yn destun codiadau'r dyfarniad cyflog blynyddol.

Os bydd yn cael ei gymeradwyo, bydd y meini prawf uchod yn sail ar gyfer cytundeb cydfargeinio gydag undebau llafur cydnabyddedig y Cyngor.

Goblygiadau i'r Gyllideb

Y gost o gyflwyno'r lwfans hwn, gyda nifer bresennol y Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, yw £16,506 (gan gynnwys y gyflogres). Cyfanswm y gost flynyddol gyda nifer lawn o 9 AMHP fyddai £24,759 (gan gynnwys y gyflogres). Byddai hyn yn gynnydd ar y gyllideb graidd a byddai angen i'r gwasanaeth gael y cyllid o'r gyllideb gyfan.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** ***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**	Naddo, nid yw cyflwyno'r lwfansau hyn yn newid polisi na'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
Argymhellion:	**(1) Cymeradwyo'r gwaith o weithredu Lwfans Cysgu Mewn oddi ar 1 Ebrill 2022** **(2) Cymeradwyo'r gwaith o weithredu Lwfans Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy oddi ar 1 Ebrill 2022**	
Rhesymau dros y penderfyniad:	**(1) I gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleuster preswyl i blant** **(2) I gefnogi cyfrifoldeb statudol y Cyngor i ddarparu Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy ar ddyletswydd dros 24 awr**	
Trosolwg a Chraffu:	Heb ystyried	
Fframwaith Polisi:	Cytundeb Statws Sengl Cyngor Sir Ceredigion	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol: • Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesa a galluogi cyflogaeth • Creu Cymunedau Gofalgar ac ach • Creu Cymunedau Cynaliadwy Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd	
Goblygiadau Cyllid:	I'w cyflawni o gyllideb bresennol Gydol Oes a Llesiant	
Pwerau Statudol:		
Papurau Cefndir:	Dim	
Atodiadau:	Dim	
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Geraint Edwards – Pobl a Threfniadaeth	
Swyddog Adrodd:	Geraint Edwards	
Dyddiad:	21/11/2022	